CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Datganiad Caethwasiaeth Fodern 2022–2023

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol. Mae iddi sawl ffurf, gan gynnwys caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur gorfodol a masnachu pobl i'w hecsbloetio a gall gael effaith andwyol sylweddol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau ledled y byd.

Mae'r datganiad hwn yn nodi'r camau y bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn eu cymryd yn ystod y flwyddyn ariannol Ebrill 2022–Mawrth 2023 i leihau peryglon unrhyw gysylltiad ag arferion sy'n tanseilio egwyddorion diogelwch ac urddas i'n cwsmeriaid, ein cyd-weithwyr a'n cadwyni cyflenwi.

Mae'r datganiad hwn yn fynegiant o'n hymrwymiad i wella ein harferion er mwyn brwydro yn erbyn caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein gweithgareddau corfforaethol a'n cadwyni cyflenwi.

Cyflwyniad

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru ac yn hyrwyddo darllen er pleser. Un o'n swyddogaethau craidd yw darparu gwasanaethau golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu arbenigol i sicrhau safonau uchel o ran cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau yn Gymraeg a Saesneg. Wedi'n hariannu gan Lywodraeth Cymru, rydym hefyd yn gweinyddu ac yn dosbarthu grantiau i gyhoeddwyr yng Nghymru o'n pencadlys yn Aberystwyth. Elfen hanfodol arall o'n gwaith yw gweithredu i hyrwyddo darllen a llythrennedd ledled Cymru trwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau.

Rheoli Risg

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn rheoli risg trwy ei Dîm Gweithredol a'i Gofrestr Risg i'r Prif Swyddogion. Ei nod yw diogelu asedau'r cwmni, sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion statudol a rheoliadol a chynyddu'r siawns o gyflawni'r amcanion corfforaethol.

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn ymdrechu'n barhaus i sicrhau bod Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y sefydliad. Caiff diwydrwydd dyladwy ei ymarfer mewn perthynas â phob cyflenwr newydd cyn cychwyn ar waith neu wasanaethau dan gontract, a bydd yn ofynnol i unrhyw sefydliad a ariennir gadw at ofynion tebyg yn ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern.

Cadwyn Gyflenwi Cyngor Llyfrau Cymru

Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn gwbl ymwybodol mai'r prif faes sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â chaethwasiaeth fodern yw ei gadwyn gyflenwi. Yn ystod ei holl weithgaredd caffael, nod Cyngor Llyfrau Cymru yw datblygu'r gadwyn gyflenwi leol a chynorthwyo twf a datblygiad yr economi leol.

Hyfforddiant a Recriwtio

Er mwyn sicrhau lefel uchel o ddealltwriaeth o risgiau caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn ein cadwyni cyflenwi a'n busnes, mae Cyngor Llyfrau Cymru yn bwriadu darparu arweiniad i'r holl staff sy'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi ymrwymo i weithredu ei bolisi cyfle cyfartal ar bob cam o'r drefn recriwtio a dethol. Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn ceisio sicrhau bod y prosesau recriwtio yn cefnogi gofynion ei bolisi Cyfle Cyfartal ac yn cadw at egwyddorion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Arfer y sefydliad yw ceisio cydsyniad yr ymgeisydd llwyddiannus am ddau dystlythyr ysgrifenedig a gofyn am brawf dogfennol o gymwysterau a'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig. Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar fodloni'r gofynion hyn.

Gweithgaredd a Gynlluniwyd ar gyfer y 12 mis nesaf

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau yn barhaus i sicrhau bod pob gweithgaredd yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Yn ogystal â hyn, bydd Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithredu'r camau canlynol:

- Sicrhau bod yr holl staff sy'n ymwneud â phrynu a recriwtio yn derbyn hyfforddiant ar gaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol. Rhaid cadw cofnod o'r holl unigolion a hyfforddwyd a'i ddiweddaru'n barhaus.
- Gweithredu cymal ym mhob tendr ysgrifenedig sy'n ymwneud â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ar gyfer prynu gwasanaethau neu nwyddau gwerth mwy na £50,000.
- Diwygio'r polisi presennol i gynnwys naratif ysgrifenedig ar gyflogaeth foesegol o fewn y gadwyn gyflenwi. Bydd y gwelliant hwn yn cael ei gyfleu i'r holl staff a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus.
- Penodi yn fewnol hyrwyddwr gwrth-gaethwasiaeth a chyflogaeth foesegol.
- Cyhoeddi'r datganiad hwn yn y parth cyhoeddus trwy wefan y sefydliad i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Datganiad

Mae'r Prif Weithredwr wedi cymeradwyo'r datganiad hwn.

Mae fersiwn Saesneg o'r canllawiau hyn ar gael.

An English-langugae version of these guidelines is available.